# Bendithion

## Darlleniad 1: Rhufeiniaid 12: 14
## Darlleniad 2: Effesiaid 1: 3-14

(*Llafarganu*)
*Benedictus* ... *Maledictus.*
Dweud yn dda ... Drygeirio.
*Benedictus* ... Bendith; *Maledictus* ... Melltith.

Ein Tad, sut mae 'dweud yn dda' am rywun yr ydym yn ei gasáu? Sut mae 'bendithio' rhywun sy'n mynnu ymosod arnom neu wneud drwg inni? Ein tuedd naturiol, a'n teimlad cyntaf, cryf, cyntefig yw talu'n ôl gyda mwy o nerth nag sydd ynddyn nhw. Sut mae arfer hunanddisgyblaeth y Cristion a dweud rhywbeth da yn ôl, ac ad-dalu trwy wneud rhywbeth positif? Fedrwn ni faddau? Fedrwn ni anghofio?

Gwyddom yn dda, ein Tad, bod ceisio dial yn adweithio'n ddrwg arnom ni ein hunain. Er bod y dialedd cyntaf yn gallu llwyddo a dwyn boddhad amlwg inni, byrhoedlog yw'r blas melys. Mae blas chwerw yn ein cegau wrth ddeall bod dial yn ein dibrisio ni ein hunain. Ni sy'n chwerwi o ran natur; ni sy'n datblygu obsesiwn drwy gatalogio dulliau dial; ni sy'n troi'n bobl fach fileinig wrth geisio gwella'n briw ninnau trwy agor un mwy ynddyn nhw. Dyna pam y dywed dy Air wrthym, 'Myfi piau'r dial; myfi a dalaf yn ôl ...' Maddau inni am fethu aros i'th ddialedd dithau ddod i'r golwg. Maddau inni am fethu cario'r briwiau gyda ni, heb rwgnach na theimlo inni gael cam. A maddau inni am fethu ymddiried digon ynot i ddeall mai cariadus yw dy fwriadau tuag atom ac nid gelyniaethus.

'Yr wyf yn galw'r nef a'r ddaear yn dystion yn dy erbyn heddiw, imi roi'r dewis iti rhwng bywyd ac angau, rhwng bendith a melltith. Dewis dithau fywyd, er mwyn iti fyw, tydi a'th ddisgynyddion, gan garu'r Arglwydd dy Dduw, a

gwrando ar ei lais a glynu wrtho; oherwydd ef yw dy fywyd ...'

Gosod y geiriau hyn yn ein meddyliau a'n calonnau, os gweli di'n dda. Argraffa'n eglur arnynt mai bywyd yw dy fendith di. Gad inni dyfu'n well pobl wrth inni garu'n gelynion. Aeddfeda ni fel unigolion wrth inni faddau i'n gilydd fel y maddeuaist ti i ni. Meithrin ni fel personau crwn a chyflawn wrth inni ddysgu cario creithiau'r geiriau cas a'r gweithredoedd creulon. Helpa ni i gofio mai ennill, gorchfygu, concro, wnaeth dy Grist, trwy gario creithiau'r dyddiau diwethaf hynny cyn y Groes. Bywyd a ddewisodd ef, a'r bywyd newydd yw ef yn awr i bawb sy'n ei geisio. Gallwn ninnau, gydag ef yn gefn inni, ganolbwyntio arnat ti.

Bonws yw'r bendithion eraill - teulu sy'n ein caru er gwaethaf ein gwendidau; ffrindiau sy'n ein cynnal ymhob storm a heulwen fel ei gilydd; pobl sy'n dy ddangos di inni bob dydd mewn gair llawen, gwên gyfeillgar, stori gellweirus a ddena'r chwerthin ynom, neu law o gymorth yn ôl yr angen. Bonws yw hawddfyd a hamdden, digonedd (heb ormodedd) o fwyd a diod, gwres a chysur. Bonws yw'r cyfle i weithio mewn swydd gan ddefnyddio'n talentau personol a'n gallu proffesiynol. Bonws ar dy ben di. Oherwydd ynot ti y cawsom y cyfan, yr holl fendithion - yn dy gwmni ar y llwybrau byw, ac yn dy Iesu.

(*Llafarganu*)

*Benedictus.*
Bendith.
Dweud yn dda ... Byw yn llawn.

'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist,
y Tad sy'n trugarhau a'r Duw sy'n rhoi pob diddanwch.' Amen.

*Roger Ellis Humphreys*